Sioe Sir Ceredigion
ABERYSTWYTH
Ceredigion County Show

Yn galw gwirfoddolwyr!

Oes gennych chi ychydig oriau i'w sbario ar ddydd y Sioe neu yn yr wythnos sy'n arwain at y Sioe? Os felly, beth am ddod yn rhan o'r tîm gwirfoddol? Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch chi gan y byddwn ni'n esbonio'ch dyletswyddau ymlaen llaw.

Ni fyddai'r Sioe yn mynd yn ei blaen heb ein byddin o wirfoddolwyr, ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cefnogi dros y blynyddoedd.

Hoffech chi ymuno?

Dyma rai rhesymau dros ystyried gwirfoddoli yn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion.

- Dysgwch sgiliau newydd, neu rhannwch eich gwybodaeth gydag eraill
- Gwnewch gyfraniad cadarnhaol i'ch cymuned a'ch ardal leol
- Datblygwch eich CV
- Dod i wneud ffrindiau newydd, a theimlo'n rhan o dîm
- Mwynhau gyda chystadleuwyr ac ymwelwyr
- Mwynhewch y Sioe gyda thocyn mynediad a chinio am ddim.

Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli canlynol ar gael:

- Cyfathrebu;
- negeswyr,
- stiwardiaid yn adran y ceffylau / defaid / gwartheg / dofednod / cynnyrch / cneifio.
- dyletswyddau gweinyddol,
- Gofalu am gwsmeriaid
- Stiwardiaid Cyffredinol

Os hoffech chi a ffrind wirfoddoli, anfonwch neges at abershow@outlook.com gan nodi ym mha adran yr hoffech chi wirfoddoli ac a fyddwch chi ar gael drwy'r dydd neu ar amser penodol.

www.sioeaberystwyth.com fb.com/SioeAberystwythShow @sioe_abershow